

Cynllun Chwaraeon – Cwestiynau cyffredin

Pa oedran mae'n rhaid i fy mhlentyn fod i fynd i nofio?

Rhaid i blant fod yn 8 oed neu'n hŷn i allu mynd i nofio fel rhan o'r Cynllun Chwaraeon.

Oes rhaid iddyn nhw allu nofio?

Nac oes, does dim rhaid iddyn nhw, ond byddai angen iddyn nhw aros yn y pen bas. Os ydyn nhw'n gallu nofio'n hyderus yn y pen dwfn, bydd yr achubwr bywyd sy'n bresennol yn gofyn am eu gwyllo nhw'n nofio 2 hyd o'r pwll. Bydd hyfforddwr Chwaraeon Caerffili hefyd yn bresennol.

Oes rhaid i blant fynd i nofio? Os nad oes, beth bydden nhw'n ei wneud yn ystod yr amser hyn?

Nac oes, does dim rhaid i blant fynd os dydyn nhw ddim eisiau. Eu dewis nhw yw e. Os ydyn nhw'n dewis peidio â mynd i nofio, bydden nhw'n aros yn y neuadd ac yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau chwaraeon gyda'r hyfforddwyr a gwirfoddolwyr (Noder: Dydy hyn ddim yn opsiwn yn Heolddu gan fod y plant yn mynd i nofio ar ddiwedd y dydd rhwng 2pm a 3pm).

Pa weithgareddau ydych chi'n eu darparu?

Rydyn ni'n darparu nifer o chwaraeon yn ystod pob diwrnod a phob wythnos – mae pob diwrnod yn wahanol. Rhai o'r chwaraeon a all gael eu cynnwys yw pêl-droed, rownderi, criced, pêl-rwyd, badminton, ffrisbi, rygbi, pêl-fasged a mwy.

Oes rhaid i'r plant ddod ag arian?

Eich dewis chi yw a ydy eich plentyn yn dod at y Cynllun Chwaraeon gydag arian. Mae gan bob safle beiriannau gwerthu lle maen nhw'n gallu ei wario, ond cyfrifoldeb y plant yw edrych ar ôl eu harian ac unrhyw bethau gwerthfawr maen nhw'n dod gyda nhw – nid yr hyfforddwyr/arweinwyr safle.

Beth sydd angen iddyn nhw ei wisgo?

Byddai angen i blant wisgo dillad chwaraeon oherwydd byddan nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gydol y dydd. Byddai hefyd angen iddyn nhw wisgo esgidiau addas, e.e. esgidiau ymarfer.

Ydy cinio'n cael ei ddarparu?

Nac ydy, yn anffodus dydy cinio ddim yn cael ei ddarparu. Byddai angen i'r plant ddod â phecyn bwyd a digon o ddiod gyda nhw.

Pa oedrannau ydych chi'n darparu ar eu cyfer?

Mae'r Cynllun Chwaraeon yn darparu ar gyfer plant rhwng 7 a 12 oed.

Ydych chi'n derbyn talebau gofal plant?

Nac ydyn, yn anffodus dydyn ni ddim yn derbyn talebau gofal plant fel dull o dalu am y Cynllun Chwaraeon rydyn ni'n ei gynnal.

Sut ydw i'n gwybod bod fy mhlentyn yn ddiogel?

Bydd eich plentyn yn mynychu Cynllun Chwaraeon gyda hyfforddwyr proffesiynol, cwbl gymwys, wedi'u gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, rydyn ni'n gweithredu rhaglen 'agored' o weithgareddau. Dydy'r staff ddim yn cael adael y safle, nac yn gallu gorfodi plant i aros ar y safle chwaith. Os bydd eich plentyn yn gwrthod aros ar y safle, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi.

Beth os oes gan fy mhlentyn gyflwr meddygol?

Os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol, rhowch wybod i staff cyn y cynllun. Os ydych chi'n poeni, cysylltwch â ni cyn y cynllun i drafod a byddwn ni'n gallu helpu/addasu. Bydd hefyd angen i rieni lenwi ffurflen ganiatâd cyn diwrnod cyntaf eu Cynllun Chwaraeon, lle bydd cwestiynau am gyflyrau meddygol.

Beth yw cost y cynllun?

Mae'r Cynllun Chwaraeon yn costio £5.85 y dydd yng Nghanolfan Hamdden Heolddu (10am–2pm). Yng nghanolfannau hamdden Caerffili, Trecelyn a Rhisga, cost y Cynllun Chwaraeon yw £9.35 y dydd (9am–3pm).

Â phwy ddylwn i gysylltu pe bai gen i argyfwng?

Mewn argyfwng, cysylltwch â derbynfa'r ganolfan hamdden. Yna, byddan nhw'n dod i ddweud wrth arweinydd safle'r Cynllun Chwaraeon a fydd wedyn yn gallu rhoi gwybod i'ch plentyn.